YR EGLWYS yng NGHYMRU THE CHURCH IN WALES

Corff Llywodraethol Yr Eglwys yng Nghymru
The Governing Body of The Church in Wales

Y Pwyllgor Sefydlog

Cynhaliwyd Cyfarfod o Bwyllgor Sefydlog Corff Llywodraethol yr Eglwys yng Nghymru ar-lein ar 20 Chwefror 2024.

Yn bresennol:

Aelodau *ex-officio*

Y Parchedicaf Archesgob Cymru
Y Gwir Barchedig Esgob Llanelwy
Y Gwir Barchedig Esgob Abertawe ac Aberhonddu
Y Gwir Barchedig Esgob Tyddewi
Yr Athro Medwin Hughes, CBE, DL, Cadeirydd Corff y Cynrychiolwyr

Enwebwyd gan Bwyllgorau Sefydlog yr Esgobaethau

Y Parchedig Ganon Dr Trish Owens
Mr Paul Whittaker CBE
Y Parchedig Richard Wood
Yr Hybarch Paul Mackness
Mr Tim Llewelyn (Cadeirydd)
Yr Hybarch Rod Green
Dr Heather Payne (Is-gadeirydd)
Yr Hybarch Stella Bailey
Ms Caroline Woollard
Y Parchedig Ganon Justin Davies
Mr Paul Murray

Yn bresennol:

Ysgrifennydd y Dalaith, Swyddog y Corff Llywodraethol, y Rheolwr Llywodraethu, y Swyddog Llywodraethu, y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a'r Cyfarwyddwr Cenhadaeth a Strategaeth (ar gyfer agendwm 4 (e) yn unig)

Ymddiheuriadau

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan:

Esgobion Mynwy a Llandaf

Gair o groeso

Cymerodd yr Archesgob y gadair ar ddechrau'r cyfarfod gan mai hwn oedd cyfarfod cyntaf y trieniwm newydd. Croesawodd yr holl aelodau i'r cyfarfod, gyda chroeso arbennig i'r aelodau newydd a etholwyd gan eu hesgobaethau ar gyfer y trieniwm sydd i ddod:

Y Parchedig Ganon Dr Trish Owens
Yr Hybarch Stella Bailey
Ms Caroline Woollard

Gweddïau

Offrymwyd y gweddïau agoriadol gan y Parchedig Ganon Justin Davies.

Aelodaeth o'r Pwyllgor Sefydlog ac ethol y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd a'i Is-bwyllgorau

24/01

(a) Ethol Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Sefydlog

Enwebwyd Mr Tim Llewelyn a Dr Heather Payne fel Cadeirydd ac Is-gadeirydd ar gyfer y trieniwm nesaf. Gadawodd y ddau y cyfarfod er mwyn cynnal trafodaeth.

Yn unol ag Adran 34.4 o'r Rheoliadau i Bennod II, cafodd Mr Tim Llewelyn ei ailethol yn Gadeirydd am y tair blynedd nesaf.

Ail-etholwyd Dr Heather Payne yn Is-gadeirydd y Pwyllgor Sefydlog am y trieniwm nesaf.

Daeth Mr Llewelyn i'r gadair am weddill y cyfarfod.

(b) Aelodaeth o'r Pwyllgor Sefydlog

Aelodaeth Etholedig o'r Pwyllgor Sefydlog

Adroddwyd bod yr Esgobaethau wedi ethol yr aelodau canlynol:

Llanelwy
Y Parchedig Ganon Dr Trish Owens
Mr Paul Whittaker CBE

Bangor
Y Parchedig Richard Wood
Swydd wag

Tyddewi
Yr Hybarch Paul Mackness
Mr Tim Llewelyn

Llandaf
Yr Hybarch Rod Green
Dr Heather Payne

Mynwy
Yr Hybarch Stella Bailey
Ms Caroline Woollard

Abertawe ac Aberhonddu
Y Parchedig Ganon Justin Davies
Mr Paul Murray

Enwebu Aelodau

Ystyriodd y Pwyllgor Sefydlog enwebiad aelod i'r Corff Llywodraethol i'w benodi i'r Pwyllgor Sefydlog o dan ddarpariaeth Adran 34.2.3 o'r Rheoliadau sy'n ymwneud â Phennod II y Cyfansoddiad.

Ar argymhelliad yr Archesgob, cytunodd y Pwyllgor Sefydlog i ofyn i'r Corff Llywodraethol enwebu'r Parchedig Ganon David Morris i gymryd aelodaeth o'r Pwyllgor yn dilyn ei gysegru yn Esgob Enlli ar 11 Mai 2024

Aelodau Cyfetholedig

Cytunodd y Pwyllgor Sefydlog i gyfethol Ei Anrhydedd y Barnwr Andrew Keyser CB, (a benodwyd yn Gadeirydd yr Is-bwyllgor Cyfreithiol yn eitem 24/01(c)) a gadael y lle i ail aelod cyfetholedig yn wag am y tro, rhag ofn y byddai angen cyfethol aelod ag arbenigedd penodol yn ddiweddarach yn y trieniwm. Byddai hyn yn cael ei adolygu o bryd i'w gilydd.

(c) Aelodaeth o is-bwyllgorau'r Pwyllgor Sefydlog

Yn unol ag Adrannau 36.4 a 36.5 o Reoliadau Pennod II y Cyfansoddiad, penododd y Pwyllgor Sefydlog yr aelodau canlynol i'w is-bwyllgorau ar gyfer y trieniwm nesaf, a chytunwyd i benodi'r aelodau a'r cadeiryddion canlynol i'r is-bwyllgorau:

Is-bwyllgor Penodiadau a Busnes

- Archesgob Cymru (*Ex-officio*, Cadeirydd)
- Mr Tim Llewelyn (*Ex-officio*, Cadeirydd y Pwyllgor Sefydlog)

Clerigion Etholedig

- Yr Hybarch Paul Mackness
- Yr Hybarch Rod Green
- Y Parchedig Richard Wood

Lleygion Etholedig

- Dr Heather Payne
- Ms Caroline Woollard
- Swydd wag

Is-bwyllgor Drafftio

- Mr Arwel Davies (Cofrestrydd yr Esgobaeth, Tyddewi)
- Y Parchedig Dyfrig Lloyd (Clerig, Esgobaeth Llandaf)
- Mr Mark Powell CB (Canghellor yr Esgobaeth, Trefynwy)
- Y Parchedig Ruth Rowan (Clerig, Esgobaeth Mynwy - Cadeirydd)
- Y Parchedig Ganon Rebecca Stevens (Clerig, Esgobaeth Mynwy)
- Mr Llŷr Williams (Cofrestrydd yr Esgobaeth, Esgobaeth Llanelwy)

Is-bwyllgor Cyfreithiol

Yn unol ag Adran 36.5 o Reoliadau Pennod II, penodwyd Ei Anrhydedd y Barnwr Andrew Keyser CB yn Gadeirydd yr Is-bwyllgor Cyfreithiol. Nododd y Pwyllgor Sefydlog mai dim ond Cadeirydd i'r Is-bwyllgor Cyfreithiol yr oedd angen ei benodi gan y byddai Cadeirydd y Pwyllgor Sefydlog a Chadeirydd yr Is-bwyllgor Cyfreithiol yn pennu'r aelodaeth yn ôl pa farn fyddai angen ei cheisio, yn dibynnu ar faes arbenigol y mater dan sylw.

Pwyllgor Rheolau

Ym mis Tachwedd 2020, roedd y Pwyllgor Sefydlog wedi penodi aelodau'r Pwyllgor Rheolau am dymor o bum mlynedd a ddaeth i ben ym mis Rhagfyr 2025. Nodwyd bod dau o'r aelodau a benodwyd sef y Parchedig Ganon Steven Kirk a'r Parchedig Ganon Christopher Smith wedi ymddeol o'r weinidogaeth ers hynny a'u bod wedi cadarnhau nad oeddent am barhau yn eu rolau ar ôl ymddeol.

Cytunodd y Pwyllgor Sefydlog i beidio ag ethol aelodau yn lle'r Canon Kirk a'r Canon Smith ar hyn o bryd, o ystyried pa mor anaml y bydd y Pwyllgor Rheolau yn cyfarfod.

Cyfetholedigion y Corff Llywodraethol

24/02

Nododd y Pwyllgor Sefydlog fod y Corff Llywodraethol ym mis Ebrill 2023 wedi cymeradwyo newidiadau i'r trefniadau ar gyfer cyfethol i'r Corff Llywodraethol. Bob blwyddyn, byddai tua hanner y cyfetholedigion yn cael eu hethol gan y Corff Llywodraethol, a byddai'r gweddill yn cael eu penodi gan y Pwyllgor Sefydlog.

Hysbyswyd y Pwyllgor Sefydlog fod yr etholiadau ar gyfer cyfethol i'r Corff Llywodraethol ar gyfer y tair blynedd 2024 i 2026 wedi dod i ben ar 21 Ionawr 2024.

Roedd dau aelod lleyg o dan 30 oed wedi cael eu hethol gan bleidlais ar-lein STV (pleidlais sengl drosglwyddadwy):

DANIEL JAMES FRANKEL
RAJU SHRESTHA

Hefyd, etholwyd un clerig yn glerig cyfetholedig (llai na 4 blynedd mewn Urddau Eglwysig, neu'n drwyddedig ond heb fod yn gyflogedig), gan bleidlais ar-lein y cyntaf i'r felin.

Y PARCHEDIG RUTH ROWAN

Penododd y Pwyllgor Sefydlog aelodau i'r tri lle cyfetholedig olaf:

Dau aelod lleyg

Dr D RHODRI WYNNE WILLIAMS
Dr MONIKA PRABHAKAR

Un Clerig

Y PARCHEDIG JOSIE GODFREY

Penodi i Banel Cadeiryddion y Corff Llywodraethol

24/03

Nododd y Pwyllgor Sefydlog fod pob aelod o'r Corff Llywodraethol wedi cael gwahoddiad i enwebu ychwanegiadau i'r panel Cadeiryddion.

Ar argymhelliad yr Is-bwyllgor Penodiadau a Busnes, penododd y Pwyllgor Sefydlog yr aelodau canlynol i'r panel Cadeiryddion am gyfnod o chwe blynedd:

- Ms Caroline Woollard
- Miss Moira Randall MBE
- Y Parchedig Ganon Justin Davies
- Y Parchedig Richard Wood

Daeth un hunan-enwebiad i law ond, yn dilyn trafodaeth, cytunwyd na fyddai'r unigolyn hwn yn cael ei benodi i'r Panel y tro hwn.

Oedran ymddeol aelodau'r Corff Llywodraethol a Chorff y Cynrychiolwyr – cynnig arfaethedig aelodau preifat

24/04

Nododd y Pwyllgor Sefydlog yn ystod y sesiwn Hawl i Holi yng nghyfarfod y Corff Llywodraethol ym Medi 2023 fod cwestiwn wedi'i ofyn ynghylch yr oedrannau ymddeol yng Nghyfansoddiad yr Eglwys yng Nghymru.

Wrth ateb y cwestiwn, nododd Cadeirydd y Pwyllgor Sefydlog y byddai'r Pwyllgor yn edrych eto ar yr oedrannau ymddeol yn y Cyfansoddiad.

Yna, cafwyd rhybudd gan ddau aelod o esgobaeth Tyddewi eu bod yn dymuno cyflwyno cynnig Aelodau Preifat ar yr un pwnc, mater a nodwyd gan y Pwyllgor Sefydlog yn ei gyfarfod ar 30 Tachwedd. Bu'r Pwyllgor Sefydlog yn adolygu testun drafft y Cynnig Aelodau Preifat.

Lleisiwyd pryder gan aelodau'r Pwyllgor Sefydlog ynghylch unrhyw awgrym y byddai'r oedran ymddeol rhagnodedig yn cael ei ddiwygio ar frys yn sgil cynnig Aelodau Preifat heb yn gyntaf ystyried canlyniadau cam o'r fath yn ofalus. Nododd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol fod y rhai a gyflwynodd y cynnig wedi cadarnhau nad dyna'u bwriad ac nad oeddent ychwaith yn dymuno gwneud unrhyw newidiadau i'r terfynau oedran ar gyfer swyddogion cyfreithiol a barnwyr.

Bu'r Pwyllgor yn ystyried a oedd am wneud unrhyw ymateb pellach i gwestiwn y Corff Llywodraethol ym mis Medi, a daeth i'r casgliad bod y Cynnig Aelodau Preifat yn sicrhau y byddai'r pwnc yn cael ei ystyried a'i brofi ar lawr y Corff Llywodraethol.

Cynnig y Corff Llywodraethol ar hunanwerthuso Ardaloedd Gweinidogaeth

24/05

Nododd y Pwyllgor Sefydlog fod y Corff Llywodraethol, yn ei gyfarfod ym mis Medi 2023, wedi pasio cynnig ynghylch gwerthuso ardaloedd gweinidogaeth.

Penderfynodd y Corff Llywodraethol:

> "Mae bron 12 mlynedd wedi pasio ers cynhadledd 'Nawr yw'r Amser' yn Llandudno, lle cafodd Golwg 2020 ei lansio. Nod Golwg 2020 oedd trawsnewid yr Eglwys yng Nghymru, yn rhannol, trwy fabwysiadu Ardaloedd Gweinidogaeth / Cenhadaeth ym mhob esgobaeth yn y Dalaith.
>
> Ers mis Mehefin 2023, mae pob esgobaeth wedi comisiynu'n ffurfiol Ardaloedd Gweinidogaeth/Cenhadaeth, gan ddisodli'r system plwyfi fel yr uned weinyddol leol sylfaenol. Mae Ardaloedd Gweinidogaeth/Cenhadaeth yn nodi newid sylfaenol yn strwythur yr Eglwys yng Nghymru. Mae ganddynt oblygiadau hirdymor sy'n newid neu'n cael effaith sylweddol ar lywodraethu, cyllid, cenhadaeth a gweinidogaeth.
>
> Mae'r Corff Llywodraethol hwn:
>
> a) yn cymeradwyo hunanwerthuso o fewn esgobaethau a rhannu arfer da ar draws y Dalaith;
> b) yn croesawu camau'r Archesgob i sefydlu Cymuned Ddysgu i helpu ein myfyrdod;
> c) yn cyfeirio'r Pwyllgor Sefydlog, yn dilyn cyfarfod cyntaf y Gymuned Ddysgu yr hydref hwn, i ddatblygu cynigion i ehangu ac ymsefydlu dulliau cadarn o hunanwerthuso mewn esgobaethau ac o gydweithio ar draws y dalaith."

Yn ei gyfarfod ym mis Ionawr, roedd Mainc yr Esgobion wedi trafod sut y gellid gweithredu'r cynnig hwn. Roedd adrannau a) ac c) o'r cynnig yn cyfeirio at brosesau esgobaethol a chydweithio taleithiol a nododd y Pwyllgor Sefydlog awgrym y Fainc mai ysgrifenyddion yr esgobaeth oedd yn y sefyllfa orau i roi ystyriaeth weithredol i sut y gellid ymdrin ag adran a) a fyddai yn ei dro yn llywio adran c).

Cefnogodd y Pwyllgor Sefydlog awgrym y Fainc a nododd y byddai gofyn i ysgrifenyddion yr esgobaethau baratoi eu cynigion mewn pryd ar gyfer trafodaeth gyda'r Fainc ym mis Mehefin cyn adrodd i'r Pwyllgor Sefydlog am drafodaeth bellach yn ei gyfarfod ym mis Gorffennaf - gan adrodd ymlaen i'r Corff Llywodraethol ym mis Medi.

Byddai'r Archesgob yn cysylltu'n gyntaf gydag ysgrifenyddion yr esgobaeth gyda briff am y gwaith y gofynnwyd iddynt ei wneud, trwy esgobion yr esgobaeth.

Trefn Busnes y Corff Llywodraethol Ebrill 2024

24/06

Derbyniodd a chymeradwyodd y Pwyllgor Sefydlog gopi drafft o'r Drefn Busnes ar gyfer cyfarfod y Corff Llywodraethol ym mis Ebrill, gan ychwanegu un eitem yn ymwneud â lansio *Beunydd gyda Duw* yng nghwmni Esgob Llanelwy, sef llawlyfr gweddi newydd a gynhyrchwyd gan y Comisiwn Ymgynghorol Sefydlog ar y Litwrgi, ddydd Mercher 17 Ebrill.

Amlinellodd Dr Grahame Davies, y Cyfarwyddwr Cenhadaeth a Strategaeth, gynigion ar gyfer gwell rheolaeth ar gyfleustodau a fyddai'n symud yr Eglwys yn sylweddol tuag at sero-net, i'w hymgorffori o fewn y diweddariad sero net blynyddol.

Cofnodion y Corff Llywodraethol Medi 2023

24/07

Cymeradwyodd y Pwyllgor Sefydlog gofnodion drafft y Corff Llywodraethol ym mis Medi 2023 i'w dosbarthu i'r Corff Llywodraethol.

Dyddiadau cyfarfodydd a lleoliadau'r Corff Llywodraethol

24/08

2025

Nododd y Pwyllgor Sefydlog fod y Corff Llywodraethol wedi penderfynu cyfarfod yn Venue Cymru Llandudno ddydd Mercher a dydd Iau 30 Ebrill ac 1 Mai 2025.

Roedd y Corff Llywodraethol hefyd wedi penderfynu cyfarfod naill ai ym Mhrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant, Llanbedr Pont Steffan neu mewn lleoliad addas arall yn y De neu'r Gorllewin ddydd Mercher a dydd Iau 11 a 12 Medi 2025. Roedd archebion dros dro wedi'u gwneud yn y ddau leoliad yn unol â hynny.

Er y cydnabuwyd bod y gost o gyfarfod yn Llanbedr Pont Steffan gymaint â hanner y gost o gyfarfod yng Nghaerdydd, a mwy na hanner cost ICC Cymru, Casnewydd, ni fyddai modd adolygu gwerth da y profiad o gyfarfod yn Llanbed ym mis Medi 2024 mewn da bryd cyn gwneud ymrwymiad ar gyfer 2025. Felly, cytunodd y Pwyllgor Sefydlog i gynnal cyfarfod Medi 2025 yn Neuadd y Ddinas Caerdydd.

Gellid archebu Llanbedr Pont Steffan ar gyfer cyfarfod y mis Medi canlynol os oedd yna deimlad ei fod yn addas. Cydnabuwyd bod costau cyfarfod yn Llanbedr Pont Steffan yn rhad.

Ail-gadarnhaodd y Pwyllgor Sefydlog ei farn, wrth bwyso a mesur lleoliadau ar gyfer y Corff Llywodraethol ym mis Gorffennaf 2023, fod angen i'r Eglwys fod yn ystyriol o'r egwyddorion arweiniol canlynol:

- Costau'r lleoliad a gwerth am arian;
- Hygyrchedd a chyfleuster lleoliad;

2026

Yn 2026 roedd y dyddiadau delfrydol ym mis Ebrill yn ystod yr wythnos ar ôl y Pasg, sef dydd Mercher a dydd Iau 15 a 16 Ebrill 2026. Gofynnodd y Pwyllgor Sefydlog i'r Ysgrifenyddiaeth archebu lleoliad addas yng Nghaerdydd neu Abertawe ym mis Ebrill ar gyfer y dyddiadau hyn, a chadw hyblygrwydd o hyd at wythnos, gan y byddai cyfarfod y flwyddyn flaenorol yn cael ei gynnal yn y gogledd.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, roedd dyddiadau mis Medi wedi llithro'n gynharach yn y mis ac roedd angen eu newid i fod yn ddiweddarach.

Y dyddiadau delfrydol ym mis Medi 2026 oedd:

- Dydd Mercher a Dydd Iau 9 a 10 Medi neu
- Dydd Mercher a Dydd Iau 16 a 17 Medi.

Cytunwyd y byddai'r Ysgrifenyddiaeth yn nodi lleoliad addas, gan ddefnyddio'r opsiynau ar gyfer dyddiad, sy'n debygol o fod naill ai yn Llanbedr Pont Steffan neu Gaerdydd, i'w benderfynu ar ôl i gyfarfod Medi 2024 gael ei gynnal yn Llanbedr Pont Steffan.

2027

Cytunwyd i chwilio am leoliadau ar gyfer cyfarfodydd 2027 gan ddefnyddio'r dyddiadau canlynol:

- Dydd Mercher a Dydd Iau 7 ac 8 Ebrill (Sul y Pasg ar 28 Mawrth)
- Dydd Mercher a Dydd Iau 14 a 15 Ebrill
- Dydd Mercher a Dydd Iau 8 a 9 Medi 2027

Materion yr Adran Gyfreithiol

24/03

(a) Adroddiad Gweithgor Diwygio Llywodraethu ar rôl a chyfrifoldebau'r Archesgob

Cyflwynodd Syr Paul Silk, cadeirydd y Gweithgor, yr adroddiad i'r Pwyllgor Sefydlog a bu'n ateb cwestiynau. Roedd yr adroddiad yn cynnwys argymhellion yn ymwneud â chodeiddio pwerau metropolitaidd yr Archesgob gan gynnwys pwerau ymweld a oedd yn cyfeirio at farn a baratowyd gan yr Is-bwyllgor Cyfreithiol ar bwerau ymweld yr Archesgob.

Croesawodd y Pwyllgor Sefydlog yr adroddiad gan y Gweithgor Diwygio Llywodraethu a chytunodd i'r canlynol:

- cyhoeddi'r Adroddiad i'r Corff Llywodraethol;
- cymeradwyo argymhellion yr Adroddiad;
- cyfarwyddo'r Adran Gyfreithiol a'r Is-bwyllgor Drafftio i baratoi'r darpariaethau deddfwriaethol angenrheidiol i ddeddfu'r argymhellion.
- gofyn i'r Gweithgor ymgymryd â gwaith ychwanegol ar wahân i:
  a. Archwilio'r gwahaniaeth rhwng rolau deuol Archesgob Cymru fel archesgob ac fel esgob esgobaethol;
  b. Egluro awdurdodaethau ymweliadau esgobaethol ac archddiaconaidd.

(b) Diweddariad Cyffredinol Cyfreithiol

Derbyniodd y Pwyllgor Sefydlog ddiweddariad gan yr Adran Gyfreithiol yn ymdrin â'r pwyntiau canlynol:

- **Diwygiadau Cyfansoddiadol – Gwefan**

Lanlwythwyd y diwygiadau amrywiol i Gyfansoddiad yr Eglwys yng Nghymru a wnaed gan y Corff Llywodraethol ym mis Medi 2023 i'r wefan ym mis Hydref 2023.

- **Is-bwyllgor Cyfreithiol**

Roedd Barn yr Is-bwyllgor Cyfreithiol ym Mehefin 2023 wedi'i dosbarthu i aelodau fel rhan o adroddiad y Gweithgor Diwygio Llywodraethu ar Bwerau'r Archesgob, fel y cyfeirir ato uchod.

Nid oedd unrhyw gyfeiriadau cyfredol gerbron y Pwyllgor.

- **Pwyllgor Rheolau**

Byddai cyfarfod o'r Pwyllgor Rheolau yn cael ei drefnu yn ddiweddarach yn y gwanwyn i ystyried diwygiadau i Reolau'r Llysoedd a'r Tribiwnlysoedd mewn perthynas ag Awdurdodaeth Hawlebau.

- **Tribiwnlys Disgyblu**

Roedd y Tribiwnlys Disgyblu wedi cyfarfod ar 31 Ionawr 2024.Nododd y Pwyllgor Sefydlog fod Cofrestrydd y Tribiwnlys wedi gofyn i adroddiad gael ei gynnwys yn adroddiad y Pwyllgor Sefydlog i'r Corff Llywodraethol ar faterion llywodraethu a chyfreithiol.

Nid oedd unrhyw atgyfeiriadau cyfredol eraill gerbron y Tribiwnlys

- **Gweithgor Diwygio Llywodraethu**

Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor fod un mater arall ar hyn o bryd gerbron y Gweithgor Diwygio Llywodraethu - diweddaru'r Cyfansoddiad i ystyried mabwysiadu ardaloedd cenhadaeth/gweinidogaeth ar draws y dalaith. Y gobaith oedd y byddai cynnydd sylweddol yn cael ei wneud ar y maes cymhleth hwn yn ystod y flwyddyn.

(c) <u>Mân Ddiwygiadau Cyfansoddiadol ar gyfer cyfarfod Corff Llywodraethol Ebrill 2024</u>

Derbyniodd a chymeradwyodd y Pwyllgor Sefydlog fân ddiwygiadau cyfansoddiadol ynghylch Canonau Anrhydeddus ac Eciwmenaidd a rhestr Cofrestrydd yr Archesgob a chytunodd i'w dwyn gerbron cyfarfod y Corff Llywodraethol ym mis Ebrill 2024 i'w cymeradwyo.

Mae'r diwygiadau a'r nodiadau esboniadol wedi'u nodi yn yr atodiad i'r cofnodion.

(d) <u>Diweddariad ar Ddiwygio Disgyblu</u>

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol adroddiad i roi'r manylion diweddaraf i'r Pwyllgor Sefydlog ar y broses o ddiwygio disgyblu.

Roedd y gwaith hwn yn rhan o'r broses weithredu yn dilyn cyhoeddi adroddiad Adolygiad Mynwy. Roedd dau argymhelliad yn yr adroddiad (6.10 a 6.11) yn ymwneud â'r broses o ddisgyblu Clerigion.

- **Argymhellion Mynwy**

Nododd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol y gallai cynhyrchu dau nodyn canllaw hyrwyddo'r gwaith gweithredu:

a. Nodyn cyfarwyddyd i'w osod ar wefan y dalaith ar frig y Polisi a'r Weithdrefn Ddisgyblu sy'n esbonio'n glir y mathau o ymddygiad y gellir eu hystyried o dan y polisi a'r mathau na ellir eu hystyried. Ni fydd hyn yn newid y polisi ei hun, felly ni fyddai angen cymeradwyaeth y Corff Llywodraethol.

b. Nodyn cyfarwyddyd wedi'i anelu at 'ddefnyddwyr' y Tribiwnlys Disgyblu (y rhai sy'n atgyfeirio cwynion at sylw aelodau Panel y Tribiwnlys), ond sydd hefyd yn cael ei gyhoeddi ar wefan y Dalaith ar gyfer atebolrwydd cyhoeddus. Unwaith eto, mae hyn yn rhoi eglurder i'r rheolau fel y maent ar hyn o bryd, nid eu newid, felly nid oes angen cymeradwyaeth y Corff Llywodraethol.

Rhagwelwyd y byddai'r ddwy ddogfen yn barod i'w hystyried yng nghyfarfod nesaf Grŵp Gweithredu Adolygiad Mynwy ar 26 Chwefror 2024.

- **Safonau mewn gweinidogaeth ordeiniedig**

  Mynegodd y Pwyllgor Sefydlog eu cefnogaeth i'r camau cyntaf ar y gwaith o greu dogfen newydd sef 'Safonau mewn Gweinidogaeth Ordeiniedig'. Cydnabuwyd bod angen trefn o safonau a fyddai'n cynorthwyo prosesau ar gyfer disgyblu clerigion. Y bwriad oedd y byddai'r Corff Llywodraethol yn mabwysiadu'r ddogfen hon ac y byddai'n berthnasol i bawb a ordeiniwyd ac mewn gweinidogaeth awdurdodedig.

- **Diwygio tymor byr**

  Nododd y Gweithgor Disgyblu un mater gweithdrefnol yn y drefn bresennol y gellid ei ddatrys yn gyflym. Pan atgyfeirir cwyn i'r Tribiwnlys Disgyblu, bydd yn destun cam rhagarweiniol i benderfynu (a) a yw'r gŵyn (os profir) o ddifrifoldeb digonol i gyfiawnhau achos disgyblu ffurfiol a (b) a oes posibilrwydd rhesymol y profir y gŵyn mewn gwrandawiad llawn. Pwyllgor o 3 unigolyn sy'n gwneud hyn fel arfer, heb unrhyw hawl i apelio os gwêl y pwyllgor 'nad oes achos i'w ateb'.

  O ganlyniad i'r adolygiad blaenorol o'n prosesau disgyblu, yn 2020 newidiodd y Corff Llywodraethol aelodaeth y pwyllgor o 3 unigolyn i un 'Dyfarnwr Rhagarweiniol' sy'n meddu ar y cymwysterau cyfreithiol.

  Teimlai'r Gweithgor, pan fo sefyllfa lle mae unigolyn yn penderfynu ar fater a allai atal yn llwyr broses ddisgyblu, ei bod hi'n briodol cael mecanwaith ar gyfer adolygu'r penderfyniad hwnnw (gyda therfyn uchel ar gyfer ei newid – os gwelir bod y penderfyniad yn 'amlwg yn wallus').

  Cytunodd y Pwyllgor Sefydlog i ofyn i'r Pwyllgor Rheolau gyflwyno rheol, o fewn Rheolau'r Tribiwnlys presennol, i ganiatáu adolygu penderfyniad Dyfarnwr Rhagarweiniol nad oes achos i'w ateb ar atgyfeiriad disgyblu.

Diweddariad Grŵp Gweithredu Adolygiad Mynwy

24/04

Cyflwynodd y Cadeirydd ddiweddariad ar Grŵp Gweithredu Adolygiad Mynwy.

Roedd gwaith wedi ei wneud neu ar y gweill mewn perthynas â phob un o'r 28 argymhelliad yn adroddiad Adolygiad Mynwy, felly roedd gwaith y Grŵp Gweithredu yn tynnu at ei derfyn. Byddai'r Grŵp yn cyfarfod nesaf ar 26 Chwefror ac yn trafod sut oedd yn dymuno tynnu'r gwaith i derfyn - y bwriad oedd cyflwyno adroddiad terfynol i'r Corff Llywodraethol yn ei gyfarfod ym mis Ebrill.

Byddai'r Grŵp hefyd yn trafod ei rôl wrth fynd ati i fonitro gwaith perthnasol yn barhaus a chyfathrebu'n briodol ag esgobaeth Mynwy.

Adroddiad Diogelu

24/05

Derbyniodd y Pwyllgor Sefydlog adroddiad gan y Cyfarwyddwr Diogelu gan nodi'r cynnwys a oedd yn cynnwys copi o'r ail Archwiliad Diogelu a gwblhawyd gan Thirtyone:eight yn ystod tymor yr hydref 2023. Y themâu a archwiliwyd yn ystod yr archwiliad hwn oedd hyfforddiant ac ymwybyddiaeth, rheoli gweithwyr, ac ymateb i bryderon. Roedd y Pwyllgor Diogelu yn ystyried cam nesaf y broses archwilio allanol.

Gofynnwyd i Ysgrifennydd y Dalaith drosglwyddo diolch y Pwyllgor Sefydlog i'r tîm diogelu taleithiol am eu gwaith.

Adroddiad Mainc yr Esgobion

24/06

Cyflwynodd yr Archesgob yr adroddiad gan Fainc yr Esgobion a oedd yn rhoi trosolwg o'r materion a drafodwyd gan y Fainc yn ystod ei gyfarfodydd ynghyd ag atodiad a oedd yn rhestru portffolios yr esgobion.

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 30 Tachwedd 2023

24/07

Cymeradwyodd y Pwyllgor Sefydlog gofnodion drafft y cyfarfod a gynhaliwyd ar 30 Tachwedd 2023 fel cofnod cywir.

Llofnododd y Cadeirydd y llyfr cofnodion.

Derbyniwyd nodyn o faterion yn codi ar y cofnodion.

Dyddiad y cyfarfod nesaf

24/08

Bydd y Pwyllgor Sefydlog yn cyfarfod nesaf ar gyfer ei gyfarfod strategol preswyl blynyddol ddydd Mercher a dydd Iau 15 a 16 Mai yng Nghaerdydd.

Gweddi i Gloi

Offrymodd yr Archesgob weddi i ddwyn y cyfarfod i ben.

Atodiad

- **Canoniaid Anrhydeddus ac Eciwmenaidd**

Drafft

Ym Mhennod VI, mae Adran 3 (1) yn cael ei diwygio fel isod:

Gall yr Esgob Esgobaethol benodi Canoniaid Anrhydeddus neu Ganoniaid Eciwmenaidd ~~sydd wedi'u hordeinio'n briodol yn weinidogion crefydd~~. Ni chaiff Canoniaid Anrhydeddus neu Ganoniaid Eciwmenaidd fod yn aelodau o Gabidwl Cadeirlan oni bai eu bod fel arall wedi'u nodi yng Nghynllun perthnasol y Gadeirlan neu Gyfansoddiad a Rheoliadau'r Gadeirlan.

Nodyn Esboniadol

Mae Mainc yr Esgobion a rhai Cabidylau Cadeirlannau wedi codi'r pwynt bod Pennod VI, Adran 3(1), o'i darllen ochr yn ochr ag Adran 1 o'r un Bennod, yn ddryslyd ac aneglur. Mae dau brif fater:

(a) Er ei bod yn glir y caniateir Canoniaid Lleyg o dan Adran 1, nid yw'n glir a yw'r amod "sydd wedi'u hordeinio'n briodol yn weinidogion crefydd" yn Adran 3(1) yn gymwys i Ganoniaid Anrhydeddus, neu i Ganoniaid Eciwmenaidd yn unig. O'r herwydd, mae lle i amau a ganiateir penodi Canoniaid *Lleyg* Anrhydeddus.

(b) O ran Canoniaid Eciwmenaidd, mae'r term 'ordeinio'n briodol yn weinidogion crefydd' hefyd yn aneglur. Nid yw'r Cyfansoddiad yn nodi a yw'r gweinidogion i gael eu 'hordeinio'n briodol' *yng ngolwg yr Eglwys yng Nghymru* (h.y. eglwys ag urdd Bresbyteraidd neu ddiaconaidd y mae'r Eglwys yng Nghymru yn ei derbyn fel un ddilys) neu wedi eu 'hordeinio'n briodol' *yng ngolwg eu Heglwys eu hunain* (h.y. eglwys sy'n arddel y cysyniad o ordeinio Presbyteraidd neu ddiaconaidd, waeth a yw ei hurdd yn dderbyniol ddilys i'r Eglwys yng Nghymru ai peidio).

Felly, cynigwyd bod y geiriau sydd wedi eu croesi allan yn cael eu dileu o'r Cyfansoddiad. Effaith hyn fydd:

a) Dileu amheuaeth y caiff yr Esgob benodi Canoniaid Lleyg Anrhydeddus i Gadeirlan;

b) Gall yr Esgob benodi aelodau o eglwysi eraill i safle [anrhydeddus] Canon Eciwmenaidd mewn Cadeirlan, waeth a yw'r unigolyn hwnnw wedi ei ordeinio mewn eglwys y mae'r Eglwys yng Nghymru yn ei derbyn fel un ddilys ai peidio

Rhestr Cofrestrydd yr Archesgob

Drafft

Ym Mhennod IX:

1. Dileu Rhan IX

2. Ail-rifo Rhan X yn Rhan IX ac Adran 45 yn Adran 44.

3. Mewnosod y canlynol fel Adran 45 newydd yn Rhan IX:

45.

Rhestr Cofrestrydd yr Archesgob

1) Yn ddarostyngedig i'r darpariaethau a ganlyn yn yr adran hon, dyletswydd Cofrestrydd yr Archesgob fydd cadw rhestr ("y Rhestr") o bob Clerig a chyn Glerig sy'n dal yn fyw:

(a) sydd ar unrhyw adeg wedi bod yn destun cosb o gael ei atal neu ei anghymhwyso am bum mlynedd neu fwy, neu ei ddiswyddo o Urddau Sanctaidd (am ba reswm bynnag);

(b) sy'n ddarostyngedig ar hyn o bryd i unrhyw gosb arall a restrir yn adran 18 (c)-(h) o'r Bennod hon (am ba reswm bynnag), neu sydd wedi bod yn destun cosb o'r fath o fewn y tair blynedd diwethaf;

(c) sydd wedi ymddiswyddo o'i swydd neu o'i ganiatâd i weinyddu yn yr Eglwys yng Nghymru o fewn y tair blynedd diwethaf ar ôl i gŵyn ysgrifenedig gael ei gwneud yn ei erbyn i'r Esgob neu yn dilyn ymchwiliad gan yr heddlu neu asiantaeth statudol arall; neu

(d) sydd ar unrhyw adeg wedi ildio Urddau Sanctaidd yn wirfoddol yn unol â Chanon Anableddau Clerigol 1990.

2) Bydd Cofrestrydd yr Archesgob yn cadw'r Rhestr mewn pedair adran ar wahân gyda phob adran yn cynnwys yr unigolion yn isadrannau 1(a), (b), (c) a (d) yn y drefn honno.

3)

a) Bydd pob cofnod yn adrannau (a) a (b) o'r Rhestr yn cynnwys disgrifiad byr o'r gosb a roddwyd a'r ymddygiad y mae'r gosb yn berthnasol iddo ar ffurf a gymeradwyir gan Lywydd y Tribiwnlys Disgyblu.

b) Bydd pob cofnod yn adran (c) o'r Rhestr yn cynnwys disgrifiad byr o'r gŵyn neu'r ymchwiliad a ragflaenodd yr ymddiswyddiad ar ffurf a gymeradwyir gan Lywydd y Tribiwnlys Disgyblu.

4) Caiff unigolyn sy'n ymddangos ar y Rhestr ofyn i Gofrestrydd yr Archesgob am gopi o'r cofnod perthnasol a chaiff ofyn i Lywydd Llys y Dalaith adolygu geiriad y disgrifiad a gofnodir o dan isadran 3 uchod os cred ei fod yn anghywir neu'n gamarweiniol. Bydd Cofrestrydd yr Archesgob yn diwygio'r cyfryw ddisgrifiad yn unol â chyfarwyddyd Llywydd Llys y Dalaith.

5) Bydd Rhestr Cofrestrydd yr Archesgob ar gael i'w harchwilio gan Esgobion, Esgobion Cynorthwyol, Cofrestryddion Esgobaethau, Archddiaconiaid a Phanel Diogelu'r Dalaith. Bydd hefyd ar gael i weithwyr cyflogedig Corff y Cynrychiolwyr a awdurdodir gan Gofrestrydd yr Archesgob o bryd i'w gilydd.

6) Caiff Cofrestrydd yr Archesgob, yn ychwanegol at ei bwerau i benodi dirprwy yn unol ag Adran 44(2)[1], ddirprwyo unrhyw un o'i swyddogaethau o dan yr adran hon i weithiwr cyflogedig arall Corff y Cynrychiolwyr gyda chydsyniad yr Archesgob.

Nodyn Esboniadol

1) Fel rhan o'r adolygiad parhaus o weithrediad system ddisgyblu'r Eglwys yng Nghymru, mae'r Ysgrifenyddiaeth a'r Tribiwnlys Disgyblu wedi nodi gwelliannau y gellir eu gwneud i gynhaliaeth y Rhestr hon. Dyma'r materion sydd wedi'u nodi ar hyn o bryd:

a. Nid oes mecanwaith awtomatig ar gyfer tynnu enwau a gofnodwyd ar y rhestr am faterion cymharol ddibwys (e.e. cerydd/rhybudd, neu ymddiswyddiad yn dilyn cwyn am fater cymharol ddibwys). Teimlir ei bod yn anghymesur bod enwau o'r fath yn aros ar y rhestr am gyfnod amhenodol.

b. Mae'r system bresennol yn gadael llawer i ddisgresiwn unigolyn (boed yn Esgob, Cofrestrydd yr Archesgob neu Lywydd Llys y Dalaith), yn enwedig pan adolygir cofnod â llaw.

c. Gall y broses adolygu â llaw fod yn anodd ei gweinyddu a gall beri gofid i'r rhai sydd ar y rhestr yn ogystal ag i'r rhai sy'n ei gweinyddu. Nid oes gan nifer o'r bobl a enwir ar y rhestr gysylltiad gweithredol â'r Eglwys bellach, ac mae amser ac arian yn cael ei neilltuo i gymryd 'pob cam rhesymol' i'w lleoli a'u hysbysu. Pan gânt eu lleoli, gallant weithiau fod yn anhapus tu hwnt fod rhywun yn cysylltu â nhw.

d. Yn aml, ni fydd pobl sydd wir angen gwybod a yw enw'n ymddangos ar y rhestr yn gallu cael mynediad i'r rhestr. Mae hyn yn cynnwys Archddiaconiaid ac Esgobion Cynorthwyol (sy'n ysgwyddo rôl bwysig wrth benodi clerigion i swyddi) a Chofrestryddion Esgobaethol (a allai fod angen rhoi cyngor i Esgobion os oes posibilrwydd o benodi Clerig sydd ar y Rhestr i rôl).

[1] Adran 45 (2) ar hyn o bryd.

2) Bydd y drafft newydd arfaethedig yn trefnu'r Rhestr yn bedair adran ar wahân:

   a. y rhai sydd ar y Rhestr yn barhaol oherwydd bod un o'r canfyddiadau disgyblu mwyaf difrifol wedi'i wneud yn eu herbyn;

   b. y rhai sydd ar y Rhestr dros dro oherwydd canfyddiad disgyblu;

   c. y rhai sydd wedi ymddiswyddo yn dilyn cwyn, ond nad ydynt (neu nad ydynt eto) yn destun canfyddiad disgyblu ffurfiol;

   d. y rhai hynny o'u gwirfodd sydd wedi ildio'u Hurddau Sanctaidd (sydd felly'n anghymwys i'w penodi'n glerig, ond sydd heb fod yn destun unrhyw achos disgyblu).

3. Mae'r rhai a nodir yn rhan (b) yn aros ar y rhestr am gyfnod eu cosb, ynghyd â thair blynedd.

4. Mae'r rhai yn rhan (c) yn aros ar y rhestr am dair blynedd. Mae hyn yn rhoi digon o gyfle i ddwyn (a gorffen) achos disgyblu yn yr achosion lle bo hynny'n briodol. Pe bai cosb ddisgyblu yn cael ei gosod wedi hynny, byddent yn symud i adran (a) neu (b) o'r rhestr.

5. Mae ail-rifo'r adrannau/rhannau yn rhoi'r Bennod mewn trefn fwy rhesymegol, fel bod penodi Cofrestrydd yr Archesgob yn ymddangos cyn y Rhestr y mae'n ei chynnal

6. Mae ail-rifo'r adrannau/rhannau yn rhoi'r Bennod mewn trefn fwy rhesymegol, fel bod penodi Cofrestrydd yr Archesgob yn ymddangos cyn y Rhestr y mae'n ei chynnal